

## Gyda'r hwyr

Eiliad o hedd trugareddus - eiliad  
Mynwes haul diflanus;  
Eiliad distaw, draw o'r drys  
Yn gwau'r cymylau melus.

Heibio'r Al, dringo drwy Bentre' Coch, parcio ar y Silff a cherdded draw dros Foel Y Waun a'r hen orsaf dywydd i Foel yr Acre. Edrych i lawr drwy'r nudden ysgafn ar ddyffryn Clwyd, goleuadau Rhuthun yn cynau, a'r haul yn machlud dros Eryri i'r gorllewin. Nefoedd o gaeau gwyrddlas, coedwigoedd duon a mynyddoedd gogoneddus. Yr Aran Fawddwy (910m, Gor46°De, 43km), Cader Idris (890m, Gor43°De, 61km), yr Arenig Fawr (850m, Gor27°De, 38km), yr Arenig Fach (690m, Gor20°De, 37km) a'r Wyddfa (1080m, Gor0°De, 56km). A chadwyn y moelydd yn cyflwyno dellt o felinau gwynion ar lwydni'r môr i'r gogledd. A chynhesu byd eang. Pa effaith yr argyfwng hinsawdd ar yr olygfa? Gwêl y dyffryn gynudd o goedwigoedd a thyfu grawn tybed, a llai o fagu anifeiliaid yn y blynyddoedd i ddod? Sôn mae rhai bod angen planu miliwn o filiynau o goed, a gwella ansawdd pridd yn fyd-eang i gael gwared â'r holl garbon deïocsid, y mae ei lefelau yn yr atmosffer wedi cynyddu bron haner-cant y cant yn y ganrif ddiwethaf. A pheidio rhwystro'r Ddaear rhag addasu fel y dymuna i'r newid anochel. Hunan-gyfyngu serch y dyfodol: rhoi'r gorau i fwyta cig, rhoi'r gorau i hedfan, a rhoi'r gorau i'r ail gar.

Eistedd o'r gwynt yng nghysgod yr eithin. Ail geir yn mynd a dod ar hyd yr A525, dechrau'r ffordd arweinia o'r gogledd glas dieithr, drwy'r canolbarth glas, i gymoedd cochion cyfarwydd lle cynt bu pwll glo, gwaith haearn a thyn. A dim gwyrdd i'w weld yn unman, heb fynd allan o'r ffordd i'r gorllewin. Pe byddai llwybr ar gael i ganol y ddaear o dan fy nhraed, rhaid byddai mentro o Foel yr Acre i Abertawe ac yn ol yn agos i bymtheg cant o weithiau cyn cyraedd. Eto, ychydig ddeallwn am natur ein Daear tu hwnt i haenen â thrwch o ychydig gilometrau wrth yr arwyneb. Syrthia bron i wyth can miliwn o firysau, y gwyddom nemor ddim amadanynt, ar bob metr sgwâr o arwyneb y Ddaear bob dydd. Cred rhai bod miliwn-gwaith mwy o firysau ar y Ddaear yn unig, nag o sêr yn yr holl fydysawd. Mae'n dywyll.

Goleua'r lleuad bellach, â Gwener yn cynig cymorth. Cau llygaid, ac ail-agor. Rhagor o sêr i ddatgelu'r gorffenol, â phelydrau'r golau'n teithio blynyddoedd drwy wactod y gofod i'n cyraedd. Yr heliwr (Orion) yn glir. Golau o ddyddiau'r Gododdion daw o'r nebiwla yn ei gleddyf islaw Llathen Fair. Cyfnod Owain Glyndŵr gwelwn o seren lachar Betelgeuse ar ysgwydd dde'r dyn mawr. A phelydrau o 2011, blwyddyn tswnami Siapan (a dyrchafiad y Swans i'r uwch-adran!), cawn o Seren Y Ci (Siriws) nepell o'i droed chwith. Credwch neu beidio, gwêl y seryddwr â'i delescop oes ymhell cyn creu'r Ddaear hyd yn oed, pum mil o filiynau o flynyddoedd yn ôl.

Troi am adre, braidd yn gweld llwybr. Pe bodolai un seren yn unig i ddatguddio'r dyfodol, tybed beth datgelai? Hoffwn feddwl y gwelwn ddatblygiad cymdeithas aeddfed. Cymdeithas gynhwysol, feddylgar gwerthfawrogai hawliau democrataidd a phrydferthwch y mawr a'r bach, a chyfoeth amrywiaeth. Er gafael yfory tra'n parchu ddoe. Cymdeithas gytbwys, gynladwy gweithiai i ddileu poen ac anhegwch, gan anog dysg, dawn ac ymdrech. A gwên. A chariad di-amod at fywyd.